cerdyn hamdden pur

Cewch fwy wir gyda Pur

www.wrecsam.gov.uk/hamdden

wrexham county borough council / cyngor bwrdeistref sirol wrecsam

Beth yw'r cerdyn hamdden pur ?

Mae'r cerdyn HAMDDEN PUR yn gerdyn gostyngiad, teyrngarwch a chymhelliant sy'n eich galluogi i arbed 20% ar brisiau safonol yr holl weithgareddau chwaraeon a hamdden yng nghyfleusterau hamdden Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

Pa fanteision gaf i?
Gellwch arbed arian mewn safleoedd sy'n cymryd rhan yn y cynllun a phrisiau sefydlog gwarantedig am 12 mis cyntaf y cynllun. Byddwch hefyd yn derbyn cyfleusterau neilltuo ffafriol a gostyngiadau mewn siopau lleol.

A all unrhyw un wneud cais am gerdyn?
Gall! Nid oes unrhyw gyfyngiadau ar aelodau, er hynny, mae rhai mentrau'n arbennig ar gyfer pobl sy'n byw yng Nghymru yn unig.

Sut allaf wneud cais am gerdyn HAMDDEN PUR?
Galwch heibio i'ch canolfan hamdden leol a chwblhewch y ffurflen gais neu gellwch ei lawrlwytho oddi ar wefan y Cyngor a mynd â hi i'r dderbynfa gyda'r ffi briodol i gofrestru. Os oes gennych gerdyn PUR eisoes, y cyfan sy'n rhaid i chi ei wneud yw cael gwneud eich cerdyn presennol yn weithredol a thalu'r ffi sy'n ofynnol.

A fydd angen ffotograff arnaf?
Na, caiff eich llun ei dynnu wrth i chi ddychwelyd eich ffurflen a'ch ffi aelodaeth.

Faint fydd cost y cerdyn?
Byddwn yn codi tâl am roi cerdyn newydd i chi a fydd yn dibynnu ar y math o aelodaeth sydd gennych.

Am faint mae'r cerdyn yn ddilys?
12 mis o'r dyddiad dechrau.

Beth os byddaf yn colli fy ngherdyn?
Rhaid i chi roi gwybod yn unrhyw un o gyfleusterau hamdden y Cyngor eich bod wedi colli'ch cerdyn a chaiff cerdyn newydd ei roi i chi am gost o £1.

Sut allaf adnewyddu fy ngherdyn?
Bydd angen i chi adnewyddu eich aelodaeth ar ôl 12 mis trwy dalu'r ffi. Bydd angen i chi ein hysbysu os bydd eich amgylchiadau wedi newid.

Beth am gael mwy gyda PUR?

gwerth pur

£6 yn unig am y pecyn gweithgareddau i bawb!

Beth am dalu llai?
Gydag aelodaeth HAMDDEN PUR, rydych yn sicr o arbed arian yn erbyn y prisiau safonol.

Beth am neilltuo'n gyntaf?
Fel aelod HAMDDEN PUR, bydd gennych hawl i gael blaenoriaeth wrth neilltuo cyfleusterau er mwyn sicrhau y gallwch neilltuo eich gweithgaredd hyd at wythnos o flaen llaw, gan roi mantais amlwg i chi dros y rheiny nad ydynt yn aelodau.

Beth am arbed arian yn eich hoff siopau?
Trwy gofrestru â HAMDDEN PUR, gellwch fanteisio ar ostyngiadau a gynigir gan amrywiaeth o siopau lleol. Dangoswch eich cerdyn a dechreuwch arbed arian!

Beth am gael mwy gyda PUR?

pur plws

*Mae'r Cynllun DASH ar gael i bobl sy'n derbyn Lwfans Byw i'r Anabl, Lwfans Gweini ac Elfen Anabledd Credyd Treth Gwaith yn unig.

Os ydych yn gymwys i gael unrhyw un o'r budd-daliadau isod neu'n perthyn i unrhyw un o'r categorïau, gellwch dderbyn cerdyn HAMDDEN PUR am £1 yn unig ar ôl cyflwyno prawf o'ch hawl.

Lwfans Gofalwyr
Lwfans Byw i'r Anabl (Cynllun DASH)*
Lwfans Gweini(Cynllun DASH)*
Cyfrifflen fanc ddiweddar yn dangos taliad neu lythyr gan yr Adran Gwaith a Phensiynau yn cynnwys dyddiad o fewn y 12 mis diwethaf.

Elfen Anabledd Credyd Treth Gwaith (Cynllun DASH)*
Llythyr gan Gyllid y Wlad (CThEM) yn dangos crynodeb o gredyd treth mewn perthynas ag anabledd sy'n cynnwys dyddiad o fewn y 12 mis diwethaf.

Gofalwr Unigolyn Anabl (Cynllun DASH)*
Rhaid i enw'r ymgeisydd fod ar ffurflen gais yr aelod DASH.

Cymhorthdal Incwm
Lwfans Ceisio Gwaith (yn seiliedig ar incwm)
Cyfrifflen fanc ddiweddar yn dangos taliad neu lythyr gan yr Adran Gwaith a Phensiynau sy'n cynnwys dyddiad o fewn y 3 mis diwethaf.

Pensiynwyr
Tnwydded yrru, cerdyn meddygol y GIG, tystysgrif geni neu basport.

Myfyrwyr llawn amser
Llythyr oddi wrth yr ysgol, coleg neu brifysgol sy'n cadarnhau eich statws llawn amser ac sy'n cynnwys dyddiad yn y 12 mis diwethaf.

Daliwr Bathodyn Glas
Pobl sydd wedi'u cofrestru'n anabl, yn fyddar neu'n ddall
Llythyr swyddogol gan y Gwasanaethau Cymdeithasol yn cadarnhau statws sy'n cynnwys dyddiad o fewn y 12 mis diwethaf.

Plant (5-16 oed)
Ffurflen gais wedi'i chwblhau a'i llofnodi gan riant neu warcheidwad.

Budd-dal tai / Budd-dal Treth y Cyngor
Mae angen llythyr swyddogol arnom yn cadarnhau'r budd-dal sy'n cynnwys dyddiad o fewn y 3 mis diwethaf.
Fel arall, gellir cwblhau ffurflen cadarnhau budd-daliadau yn ystod y cais (ar gyfer preswylwyr CBSW).

Credydau treth
Llythyr gan Gyllid y Wlad (CThEM) yn cadarnhau eich budd-dal sy'n cynnwys dyddiad o fewn y 12 mis diwethaf.

pur

Telerau ac Amodau

Mae'ch cerdyn aelodaeth yn ddilys i'w ddefnyddio gan yr unigolyn sy'n berchen ar y cerdyn yn unig a rhaid ei ddangos bob tro y byddwch yn ymweld â chyfleuster.

Nid yw'r cerdyn hwn yn drosglwyddadwy.

Gellir defnyddio'r cyfleusterau yn ystod oriau agor arferol.

Rhaid i'r aelodau gydymffurfio a rheolau a rheoliadau sy'n perthyn i'r cyfleuster a ddefnyddir.

Os byddwch yn colli'r cerdyn neu os caiff ei ddwyn, dylech hysbysu eich canolfan hamdden leol ar unwaith.

Rhaid i chi ein hysbysu os bydd eich manylion/amgylchiadau yn newid, bydd hyn yn ein galluogi i gadw'r wybodaeth ddiweddaraf amdanoch.

Mae'r Cyngor Bwrdeistref Sirol yn cadw'r hawl i gau unrhyw gyfleuster am unrhyw reswm megis ar gyfer trwsio a chynnal a chadw, neu ar wyliau banc penodol, neu ddigwyddiadau arbennig heb roi ad-daliad.

Bydd defnyddio'r cerdyn mewn canolfannau unigol yn amodol ar argaeledd y cyfleusterau.

Cedwir y wybodaeth yr ydych wedi'i rhoi yn gyfrinachol er mwyn cydymffurfio â'r Ddeddf Diogelu Data 1988.

CANOLFANNAU HAMDDEN A GWEITHGAREDDAU YM MWRDEISTREF SIROL WRECSAM

Y Waun
Ffôn: 01691 778666

Clywedog
Ffôn: 01978 262787

Darland
Ffôn: 01244 571077

Gwyn Evans
Ffôn: 01978 269540

Morgan Llwyd
Ffôn: 01978 314693

Plas Madoc
Ffôn: 01978 821600

Queensway
Ffôn: 01978 355826

Rhiwabon
Ffôn: 01978 822978

Rhosnesni
Ffôn: 01978 358967

Y Byd Dŵr
Ffôn: 01978 297300